# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mercher, 23 Tachwedd 2011**

Amser y cyfarfod:
**13:30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Pleidleisiau a Thrafodion
(32)

**Ethol Dirprwy Lywydd dros dro**

Cafodd Rhodri Glyn Thomas ei ethol yn Ddirprwy Lywydd dros dro.

**13.31**
**1. Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Ty**

Gofynnwyd y 11 cwestiwn cyntaf.

**14.14**
**2. Cwestiynau i'r Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth**

Gofynnwyd y 14 cwestiwn.

**14.50**
**CWESTIWN BRYS 1**

**Peter Black (Gorllewin De Cymru):** Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd yn dilyn marwolaeth dau faban o ganlyniad i haint E. coli yn Abertawe?

**14.57**
**CWESTIWN BRYS 2**

**Bethan Jenkins (Gorllewin De Cymru):** Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd yn dilyn y cyhoeddiad y bydd gorsaf gwylwyr y glannau Abertawe yn cau?

**15.08**
**3. Dadl y Ceidwadwyr Cymreig**

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig heb ei ddiwygio:

**NDM4858 William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cydnabod bod:

a) buddsoddi mewn seilwaith trafnidiaeth yn angenrheidiol er mwyn cyflawni twf economaidd ledled Cymru;

b) Maes Awyr Caerdydd, ein porth rhyngwladol, yn methu marchnata Cymru yn effeithiol nac ymestyn ei lwybrau hedfan a bod angen cefnogaeth ac arweinyddiaeth arno ar frys gan Lywodraeth Cymru; ac

c) nad oes gan Lywodraeth Cymru weledigaeth nac uchelgais ar gyfer creu rhwydwaith trafnidiaeth sydd gyda'r gorau yn y byd.

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) lunio rhaglen farchnata i ddenu'r sector hedfan i Gymru ac adolygu a buddsoddi mewn mynediad cyhoeddus i Faes Awyr Rhyngwladol Caerdydd;

b) adolygu'r gorsafoedd gwasanaeth a'r mannau aros i lorïau sydd ar hyd y prif ffyrdd ar draws Cymru ar hyn o bryd a rhoi manylion rhaglen fuddsoddi; ac

c) adolygu ac ailasesu defnyddio rhaglenni cyllid Ewropeaidd ar gyfer prosiectau seilwaith trafnidiaeth ledled Cymru.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 12 | 0 | 43 | 55 |

**Gwrthodwyd y cynnig heb ei ddiwygio.**

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Dileu is-bwynt 1b) a rhoi yn ei le:

bod pryderon fod angen cynyddu effaith economaidd Maes Awyr Caerdydd a datblygu llwybrau awyr newydd, a bod Llywodraeth Cymru felly yn gweithio gyda'r perchnogion i ysgogi rhagor o weithgarwch busnes a gwella'r cysylltiadau rhyngwladol.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 39 | 0 | 16 | 55 |

**Derbyniwyd gwelliant 1.**

**Gwelliant 2 - Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Dileu is-bwynt 1c).

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 2:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 29 | 0 | 26 | 55 |

**Derbyniwyd gwelliant 2.**

**Gwelliant 3 - Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Ym mhwynt 2a) cyn ‘lunio’ rhoi:

‘Gweithio gyda pherchnogion Maes Awyr Caerdydd i’

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 3:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 43 | 0 | 12 | 55 |

**Derbyniwyd gwelliant 3.**

**Gwelliant 4 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Cynnwys is-bwynt 2b) newydd ac ail-rifo’r pwyntiau sy'n dilyn:

b) Parhau i ymgyrchu dros ddatganoli Toll Teithwyr Awyr i Gymru;

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 4:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 43 | 12 | 0 | 55 |

**Derbyniwyd gwelliant 4.**

**Gwelliant 5 - Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i ddechrau gweithio ar gynllun cyflenwi ar gyfer trydaneiddio Rheilffyrdd y Cymoedd

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 5:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 55 | 0 | 0 | 55 |

**Derbyniwyd gwelliant 5.**

**Gwelliant 6 - Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddileu’r cymhorthdal i’r cyswllt hedfan rhwng y De a’r Gogledd ar y cyfle cyntaf ac i ddiystyru rhoi cymhorthdal i gwmnïau hedfan ychwanegol.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 6:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|

| | | | |
|---|---|---|---|
| 4 | 0 | 51 | 55 |

**Gwrthodwyd gwelliant 6.**

**Gwelliant 7 - Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gymryd rhan mewn deialog gyda Network Rail a gweithredwyr cludiant cyhoeddus i wella cysylltiadau ar draws y ffin rhwng Gogledd Cymru a Meysydd Awyr Manceinion a Lerpwl.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 7:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 55 | 0 | 0 | 55 |

**Derbyniwyd gwelliant 7.**

**Gwelliant 8 - Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cefnogi gwaith parhaus Cyngor Abertawe a Llywodraeth Cymru i lunio achos busnes dros drydaneiddio'r brif reilffordd cyn belled ag Abertawe.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 8:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 55 | 0 | 0 | 55 |

**Derbyniwyd gwelliant 8.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig wedi'i ddiwygio:**

**NDM4858 William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cydnabod bod:

a) buddsoddi mewn seilwaith trafnidiaeth yn angenrheidiol er mwyn cyflawni twf economaidd ledled Cymru;

b) bod pryderon fod angen cynyddu effaith economaidd Maes Awyr Caerdydd a datblygu llwybrau awyr newydd, a bod Llywodraeth Cymru felly yn gweithio gyda'r perchnogion i ysgogi rhagor o weithgarwch busnes a gwella'r cysylltiadau rhyngwladol.

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) Gweithio gyda pherchnogion Maes Awyr Caerdydd i lunio rhaglen farchnata i ddenu'r sector hedfan i Gymru ac adolygu a buddsoddi mewn mynediad cyhoeddus i Faes Awyr Rhyngwladol Caerdydd;

b) Parhau i ymgyrchu dros ddatganoli Toll Teithwyr Awyr i Gymru;

c) adolygu'r gorsafoedd gwasanaeth a'r mannau aros i lorïau sydd ar hyd y prif ffyrdd ar draws Cymru ar hyn o bryd a rhoi manylion rhaglen fuddsoddi; ac

d) adolygu ac ailasesu defnyddio rhaglenni cyllid Ewropeaidd ar gyfer prosiectau seilwaith trafnidiaeth ledled Cymru.

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i ddechrau gweithio ar gynllun cyflenwi ar gyfer trydaneiddio Rheilffyrdd y Cymoedd

4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gymryd rhan mewn deialog gyda Network Rail a gweithredwyr cludiant cyhoeddus i wella cysylltiadau ar draws y ffin rhwng Gogledd Cymru a Meysydd Awyr Manceinion a Lerpwl.

5. Yn cefnogi gwaith parhaus Cyngor Abertawe a Llywodraeth Cymru i lunio achos busnes dros drydaneiddio'r brif reilffordd cyn belled ag Abertawe.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 55 | 0 | 0 | 55 |

**Derbyniwyd y cynnig wedi'i ddiwygio.**

**16.07**
**4. Dadl Plaid Cymru**

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig heb ei ddiwygio:

**NDM4860 Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cydnabod y rhan hanfodol y mae nyrsys, gan gynnwys nyrsys arbenigol, yn ei chwarae yn y GIG.

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) gynnal y cynllun bwrsariaeth nyrsio fel y mae'n cael ei weithredu ar hyn o bryd;

b) sicrhau datblygiad proffesiynol parhaus yn y proffesiwn nyrsio; ac

c) datblygu rhwydwaith digonol o nyrsys arbenigol.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 10 | 12 | 33 | 55 |

**Gwrthodwyd y cynnig heb ei ddiwygio.**

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Dileu is-bwynt 2a) a rhoi yn ei le:

sicrhau bod egwyddorion cydraddoldeb a thegwch wedi’u dilyn wrth newid y cynllun bwrsariaeth ar gyfer nyrsys.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 33 | 0 | 21 | 54 |

**Derbyniwyd gwelliant 1.**

**Gwelliant 2 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Cynnwys is-bwynt 2a) newydd ac ail-rifo’r pwyntiau sy'n dilyn: ‘diffinio a datblygu swyddogaeth Nyrsys Presgripsiynu yng Nghymru’.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 2:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 55 | 0 | 0 | 55 |

**Derbyniwyd gwelliant 2.**

**Gwelliant 3 - Jane Hutt (Bro Gorgannwg)**

Dileu is-bwynt 2c) a rhoi yn ei le:

sicrhau bod y BILlau yn cynllunio ac yn cynnal rhwydwaith digonol o nyrsys arbenigol.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 3:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 29 | 0 | 26 | 55 |

**Derbyniwyd gwelliant 3.**

**Gwelliant 4 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu fel is-bwynt newydd ar ddiwedd pwynt 2:

‘gwella diogelwch a gwella’r amgylchedd gweithio diogel i nyrsys.’

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 4:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 55 | 0 | 0 | 55 |

**Derbyniwyd gwelliant 4.**

**Gwelliant 5 - Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Ychwanegu is-bwynt newydd ar ddiwedd pwynt 2:

sicrhau bod pob nyrs yn gallu cael gafael ar yr hyfforddiant angenrheidiol er mwyn gallu bod yn gwbl effeithiol yn eu swyddogaeth.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 5:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 55 | 0 | 0 | 55 |

**Derbyniwyd gwelliant 5.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig wedi'i ddiwygio:**

**NDM4860 Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cydnabod y rhan hanfodol y mae nyrsys, gan gynnwys nyrsys arbenigol, yn ei chwarae yn y GIG.

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) diffinio a datblygu swyddogaeth Nyrsys Presgripsiynu yng Nghymru

b) sicrhau bod egwyddorion cydraddoldeb a thegwch wedi'u dilyn wrth newid y cynllun bwrsariaeth ar gyfer nyrsys;

c) sicrhau datblygiad proffesiynol parhaus yn y proffesiwn nyrsio;

d) sicrhau bod y BILlau yn cynllunio ac yn cynnal rhwydwaith digonol o nyrsys arbenigol;

e) gwella diogelwch a gwella'r amgylchedd gweithio diogel i nyrsys; ac

f) sicrhau bod pob nyrs yn gallu cael gafael ar yr hyfforddiant angenrheidiol er mwyn gallu bod yn gwbl effeithiol yn eu swyddogaeth

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 45 | 0 | 10 | 55 |

**Derbyniwyd y cynnig wedi'i ddiwygio.**

**17.04**
**5. Dadl Democratiaid Rhyddfrydol Cymru**

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig heb ei ddiwygio:

**NDM4859 Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi bod:

a) oddeutu 26,000 o gartrefi gwag preifat yng Nghymru ar hyn o bryd;

b) cartrefi gwag yn achosi melltith gymdeithasol ac amgylcheddol ar gymunedau lleol;

c) mwy o alw am dai cymdeithasol yng Nghymru.

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddatblygu strategaeth cartrefi gwag sy’n cynnwys:

a) cymorth i gynghorau a chymdeithasau tai ddefnyddio cartrefi gwag fel tai cymdeithasol;

b) caniatáu i gynghorau gael mwy o hyblygrwydd i osod cyfraddau’r dreth gyngor cosbedigol ar gartrefi sydd wedi bod yn wag yn y tymor hir er mwyn annog perchnogion i’w hailddefnyddio ac i wneud iawn i gymunedau am y felltith maent yn ei hachosi’n lleol;

c) cyflwyno sylwadau i Lywodraeth y DU i leihau cyfradd TAW ar waith atgyweirio a gwella ar adeiladau sydd eisoes yn bodoli;

d) archwilio'r posibilrwydd o ddarparu benthyciadau rhad i berchnogion i’w hannog i ailddatblygu cartrefi gwag fel tai fforddiadwy i’w gosod ar rent.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 32 | 12 | 10 | 54 |

**Derbyniwyd y cynnig heb ei ddiwygio.**

**17.59**
**Cyfnod Pleidleisio**

**18.09**
**6. Dadl Fer**

**NDM4861 Janet Finch-Saunders (Aberconwy):**

Siarter i Wyrion

Daeth y cyfarfod i ben am 18.33.

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13:30 Dydd Mawrth, 29 Tachwedd 2011**